

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau  
Equality, Local Government and Communities Committee  
ELGC(5)-17-17 Papur 6 / Paper 6

Carl Sargeant AC  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

16 Mai 2017

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet,

**Ymchwiliad i Dlodi yng Nghymru: Cymunedau yn Gyntaf – yr hyn a ddysgwyd**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 5 Ebrill 2017 ynghylch trefniadau cyllido Cymunedau yn Gyntaf. Ystyriodd y Pwyllgor y llythyr yn ei gyfarfod ar 3 Mai a byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech roi eglurder ar y pwyntiau canlynol:

- Data, ac unrhyw ddadansoddiad o'r ymatebion i'r arolwg Trafod Cymunedau, ac ymgysylltu arall â rhanddeiliaid, a gwybodaeth ar sut y cafodd hyn ei ddefnyddio i lywio'r penderfyniad terfynol i gau'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.
- Rhagor o wybodaeth am sut y bydd y sawl sy'n derbyn cyllid pontio yn adrodd am ganlyniadau, a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn asesu effeithiolrwydd trefniadau pontio.

Yn ystod tymor yr haf, bydd y Pwyllgor yn casglu tystiolaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid mewn perthynas â Chymunedau yn Gyntaf a'r hyn a ddysgwyd. Rydym yn eich gwahodd i ddod i'r cyfarfod **ddydd Mercher 21 Mehefin 2017** i roi tystiolaeth i lywio ein gwaith.




Rydym wedi cyhoeddi galwad am dystiolaeth sy'n cau **ddydd Llun 22 Mai**. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar dudalen we yr ymgynghoriad:

<http://senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=260&RPID=1508624311&cp=yes>

Unwaith i'r ymgynghoriad gau, byddwn yn gallu rhoi mwy o wybodaeth i chi am y meysydd holi ar gyfer y sesiwn tystiolaeth lafar. Gofynnwn am eich cyflwyniad ysgrifenedig erbyn **2 Mehefin 2017** os gwelwch yn dda.

Yn gywir



John Griffiths AC  
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Carl Sargeant AC/AM  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant  
Cabinet Secretary for Communities and Children



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P-CS-1329-17

John Griffiths AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

31st Mai 2017

Annwyl John

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Mai yn gofyn am wybodaeth bellach ynghylch rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ac yn fy ngwahodd i roi tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor i'r gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen.

Rwy'n falch o dderbyn eich gwahoddiad a byddaf yn cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig ar ran Llywodraeth Cymru maes o law.

O ran dadansoddi'r ymatebion i ddigwyddiadau ymgysylltu Trafod Cymunedau, contractiwyd Arad Consulting i ymgymryd â'r gwaith hwn yn dilyn proses dendro yn unol â rheolau caffael Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i Arad Consulting gynnal dadansoddiad manwl o'r holl adborth a gasglwyd o'r digwyddiadau ymgysylltu â'r arolwg ar-lein. Cyhoeddwyd eu hadroddiad yn yr adran Cymunedau yn Gyntaf ar wefan Llywodraeth Cymru yn dilyn fy natganiad i'r Cyfarfod Llawn ym mis Chwefror, ac mae'r crynodeb gweithredol a'r adroddiad llawn i'w cael yn y ddolen ganlynol:

<http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/communitiesfirst/?lang=cy>

Rhoddais ystyriaeth lawn i'w hadroddiad a'r asesiadau effaith statudol wrth wneud fy mhenderfyniad ynghylch dyfodol y rhaglen.

O ran adrodd ar ganlyniadau ar gyfer cyllid Cymunedau yn Gyntaf yn 2017-18, nid ydym wedi pennu un set o fesurau perfformiad ar gyfer pob Corff Cyflawni Arweiniol am ei bod yn flwyddyn bontio.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru)  
[Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales](mailto:Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn hytrach, rydym yn disgwyl i Gyrrff Cyflawni Arweiniol ddatblygu amcanion CAMPUS a chlir sy'n amlinellu beth fyddant yn ceisio ei gyflawni a sut byddant yn monitro cynnydd. Cafodd hyn ei nodi yn y canllawiau trosglwyddo a'r strategaeth gysylltiedig. Bydd hefyd gofyn iddynt gyflwyno dau adroddiad monitro ym mis Medi 2017 a mis Mawrth 2018 yn adrodd ar berfformiad yn ystod y flwyddyn ac ar hynt y broses drosglwyddo.

Ochr yn ochr â'r amcanion hyn, mae fy swyddogion hefyd yn monitro'r trafodion ariannol a'r hawliadau yn erbyn y dyraniadau cyllid.

I sicrhau bod trefniadau pontio'r Cyrff Cyflawni Arweiniol yn effeithiol, mae Tîm Pontio Cymunedau yn Gyntaf yn cwrdd yn rheolaidd â'r cyrrff hyn yn unigol ac mewn cyfarfodydd rhwydweithio, ac yn cynnig help a chymorth yn ystod y flwyddyn.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, reading 'Carl Sargeant' in a cursive style.

**Carl Sargeant AC / AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant  
Cabinet Secretary for Communities and Children